

### Codwch lef

Brys, bwrlwm, siop, siarad  
rhuthro o le i le  
Mae'n Ddolig, dewch dathlwech  
cenwch am frenin ne  
Crist Ceidwad, bach, brenin  
cofiwn am faban Mair  
mab, moliant, gwyrth, geni yno mewn  
gwely gwair.

cytgan:

Mae'n Nadolig daeth yn amser cofio  
am y baban, am y baban  
mewn cadachau yno yn y preseb  
daeth ein Ceidwad, daeth ein Ceidwad  
yn y stabal llwm di nod  
ganwyd baban mawr ei glod  
mab a aned, seiniwch utgryn, molwch ef,  
codwch lef.

tinsel, twrci, arian, anrheg  
cael dillad newydd sbon  
canu, carol, bwyd, bwyta  
plant bach yn gwenu'n llon  
Crist Ceidwad, bach, brenin  
cofiwn am faban Mair  
mab, moliant, gwyrth, geni yno mewn  
gwely gwair.

### Ffalabalam

croesi'r afon gan fynd yn ysgafn droed  
ffalabalam badwdl ambade  
croesi'r afon gan fynd yn ysgafn droed  
ffalabalam badwdl ambade

cytgan:

Am dro am dro am dro fy siwsan Jen,  
Rwy'n mynd i weld fy ffalabalam  
i edrych am fy Meri Ann  
O  
ffalabalam badwdl ambade

Trotian trotian i fyny dros y bryn  
ffalabalam badwdl ambade  
Trotian trotian i fyny dros y bryn  
ffalabalam badwdl ambade

adre adre mynd adre drwy y coed  
ffalabalam badwdl ambade  
adre adre mynd adre drwy y coed  
ffalabalam badwdl ambade

### Pam fod eira'n wyn?

1. Pan fydd haul ar y mynydd, Pan fydd  
gwynt ar y môr,  
Pan fydd blodau ar y perthi, A'r goedwig  
yn gôr.  
Pan fydd dagrau f'anwylyd Fel gwllith ar  
y gwawn,  
Rwy'n gwybod, bryd hynny, mai hyn  
sydd yn iawn.

Cytgan: Rwy'n gwybod beth yw  
rhyddid, Rwy'n gwybod beth yw'r gwir  
Rwy'n gwybod beth yw cariad, At bobol  
ac at dir.  
Felly peidiwch â gofyn eich cwestiynnau  
dwl, Peidiwch edrych arna'i mor syn  
Dim ond ffwl sydd yn gofyn Pam fod  
eira'n wyn.

2. Pan fydd geiriau fy nghyfeillion Yn  
felys fel y gwin,  
A'r seiniau mwyn, cynefin, Yn dawnsio  
ar ei min.  
Pan fydd nodau hen alawon Yn lleddfu fy  
nghlyw,  
Rwy'n gwybod beth yw perthyn Ac rwy'n  
gwybod beth yw byw!  
cytgan

### Troi a throi

Pam 'da ni'n cefnu o hyd ac o hyd,  
Ar yr anobaith sydd yn y byd?  
Pam yr holl falais? Pam yr holl drais?  
Mae'n hen bryd i rywun godi ei lais.

cytgan:

Ac mae'r byd eto'n troi a throi,  
Ofer yw ceisio ffoi,  
Ac mae'r byd eto'n troi a throi,  
Troi a throi, troi a throi.

Miliwn fan yma, miliwn fan draw,  
Pam na all rywun estyn ei law?  
Teimla eu hangen am luniaeth na ddaw,  
Agor dy lygaid I'w newyn a'u braw.  
[Cytgan]

### Whiz whiz whiz

1. Dyma'r boi sy'n byw ar waelod y rhiw  
Sy dros ei naw deg oed  
A fo di'r creadur mwyaf od

Welais i erioed.

Ma'i lygad yn rowlio yn ei ben  
Fel io-io rownd a rownd,  
Ei di'n chwil wrth edrych arno fe  
Felly cofia ddal yn sownd

Ma'n mynd whiz whiz whiz  
whiz whiz whiz whiz  
O cofia ddal yn sownd.  
2. Dyma'r boi...

Mae drwyn yn hir fel polyn yn wir  
Yn fetr dda o hyd,  
Felly paid a cherdded yn rhy chwim -  
Gei di'th chwipio ar hyd y stryd.

Ma'n mynd doing doing...

3. Dyma'r boi...

Ym mhoced ei gryd yng nghanol y chwys  
Ma llygoden fach yn byw,  
Fe'i clywch chi weithiau'n gwichian  
Yn uchel yn eich clyw. Ma'n mynd gwich  
gwich...

### **Can y coed**

yn y goedwig mae pob math  
yn tyfu i'r ffurfafen  
onnen derwen castanwydden  
palmwydd a ffinwydden  
draenen ddu a draenen wen  
ysgawen a masarnen  
bedwen arian a chonwydden  
sycamor ac ywen

### **Tinsel ar y goeden**

Tinsel ar y goeden seren yn y nen  
a doli fach yn eistedd mor ddel ar frig y  
pren  
ai hyn yw'r Nadolig pwy a wyr?

Clychau Santa'n tincian dros yr eira man  
a lleisiau plant yn uno i ganu carol lan  
ai hyn yw'r Nadolig pwy a wyr?

Plant yn dawel dawel yn eu cwsg drwy'r  
oriau bach  
a breuddwyd fwyn yn gofyn a ddaw Santa  
gyda'i sach?  
Neswch at y preseb plygwch yno'n llwyr

wrth weled y dewinoedd a'r engyl gyda'r  
hwyr  
ai hyn yw'r Nadolig pwy a wyr?

daw tegannau lawer a phwy a wyr o ble  
a swm eu chwerthin hapus a glywir dros y  
lle  
ai hyn yw'r Nadolig pwy a wyr?

Clychau eglwys fechan a'i neges i'r holl  
fyd  
yn canu i'n atgoffa fod baban yn ei grud  
ai hyn yw'r Nadolig pwy a wyr?

### **Byddwch lawen**

Clychau'n seinio ym Methlem Jiwda  
Canu'n uchel drwy wlad a thref  
clychau'n dathlu geni ceidwad  
Daeth i'n byd fel Crist o'r nef.

cytgan:

byddwch lawen cenwch Amen  
Gwel y baban yn ei grud  
byddwch lawen cenwch Amen  
Ganwyd Iesu'n geidwad byd.

Daeth bugeiliaid yn eu syndod  
at y preseb, at y crud  
doethion hwythau draw o'r dwyrain  
a'u anrhegion gwerthfawr drud.  
cytgan

### **Ble mae'r brenin?**

Mae Mwnsh a Pwnsh a Stwnsh ar dasg  
Yr her sy'n fawr i'r tri  
Rhaid gwylio'r sioe, rhaid gwylio'n grâff  
pa le mae'n brenin ni?

Cytgan:

Ble mae'r brenin wyddoch chi?  
mae ef yn eich twyllo chi!  
Ble mae'r brenin wyddoch chi?  
dyna'r dasg – ein problem ni.  
Eu gwobr hwy eu braint fydd fawr  
Rhaid gwylio'r sioe yn awr.  
Eu gwobr hwy eu braint fydd fawr  
Rhaid gwylio'r sioe yn awr.

O deuwch oll i Fethlehem  
i weled baban Mair  
Mae'n cysgu'n drwm mewn gwely llwm,  
y preseb pren a'r gwair.cytgan